

Y Llyfr - Stori i'w chofio gan Val McKenzie

Aros yn nhŷ ffrind:

- O na!
- Beth sy'n bod, Catrin? Dwed wrtha i!
- Dw i wedi colli fy hoff lyfr! Dyw e unman yn y tŷ!
- O diar! Baswn i wrth fy modd yn dy helpu di taswn i'n gallu, ond rhaid i fi ddal trê'n nawr! Ble 'nest ti ei weld e ddiwetha?
- Yn fy mag gwaith i, pan o'n i'n siopa. Falle, gadawais i'r bag rywle yn y dre.
- Naddo?! - Pryd?
- Ddoe.
- Wel, y peth cyntaf yw mynd i'r orsaf heddlu. Gallai rhywun fod wedi mynd â'r bag atyn nhw. Felly, tro i'r chwith y tu allan i'r tŷ, cymera'r trydydd allanfa ar y gylchfan, ac yna'r ail dro ar y dde. Paid â phoeni! Bydd popeth yn iawn! Cer!

Pymtheg munud yn ddiweddarach:

- Pwy sy'n aros amdana i?
- Fi!
- Ga i ofyn eich enw chi?
- Cewch. Catrin Jones ydw i, a hoffwn i wybod os oes swyddfa eiddo coll yma?
- Oes. Pam? – 'Ych chi wedi colli rhywbeth?
- Ydw.
- Allech chi ei ddisgrifio fe?

- Gallwn. Bag gwaith coch yw e, gyda llyfr gwerthfawr ynddo.
- Pa mor fawr yw'r bag?
- Yn fwy na bag llaw, ond yn llai na chês. Ond mae'r llyfr yn bwysicach na'r bag! - Fy llyfr cwrs Cymraeg yw e! Roedd fy holl waith dros y ddwy flynedd diwetha ynddo - Na, dros y TAIR blynedd diwetha! - Ces i fy ngeni yng Nghymru ond, yn anffodus, ces i fy magu yn Lloegr, felly, dysgu Cymraeg, a'r llyfr cwrs Sylfaen, yw'r pethau pwysica yn y byd i fi nawr!
- Iawn 'te. Wnewch chi aros am funud. Gwnaf i edrych yn y swyddfa... Wel, 'ych chi'n lwcus iawn! Dyma fe!
- Oh diolch byth! Dw i'n meddwl bod plismyn yn fendigedig! Dylech chi gael gwobr! - Af i gartre nawr, ond dof i yn ôl yfory gyda bocs mawr o fisgedi siocled i chi a'r lleill. Diolch o galon! Hwyl!